O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 755 (Cy. 117)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Broadmoor, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Dros Dro) 2011

Gwnaed	*10 Mawrth 2011*
Yn dod i rym	*17 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2),** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Broadmoor, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 17 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan symudir yr arwyddion traffig dros dro oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road"*) yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A477 Sanclêr i Ddoc Penfro, i'r gorllewin o Broadmoor, yn Sir Benfro, sy'n ymestyn o bwynt 288 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4586 i bwynt 1655 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd o dan sylw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.